

Cyflogau'r Aelodau a Deiliaid Swyddi Ychwanegol

Datganiad Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd o dan adran 13(5) o Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010

Penderfyniad gan Fwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd

Ar 12 Mawrth 2025, gwnaeth Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd ("y Bwrdd") benderfyniad mewn perthynas â chyflogau Aelodau o'r Senedd o dan adrannau 20(1) a 53(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Penderfyniad y Bwrdd yw diwygio'r Penderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau'r Aelodau yn y Chweched Senedd ("y Penderfyniad") drwy ddileu paragraff 3.2.2 o'r Penderfyniad. Mae hyn yn golygu na fydd y cap o 3% ar gyflogau ym mharagraff 3.2.2 bellach yn gymwys, ac y bydd cyflogau'r Aelodau a deiliaid swyddi ychwanegol yn ystod blwyddyn ariannol 2025/26 yn cynyddu yn unol â ffigur ASHE Cymru¹, sef 6%.

Mae'r Atodiad i'r datganiad hwn yn nodi cyflogau'r Aelodau a deiliaid swyddi ychwanegol ar gyfer 2025/26.

Rhesymau'r Bwrdd dros wneud Penderfyniad Eithriadol

O dan amgylchiadau arferol, ni chaiff y Bwrdd wneud mwy nag un penderfyniad mewn perthynas â chyflogau'r Aelodau a deiliaid swyddi ychwanegol sydd i gael effaith yn ystod pob un o dymhorau'r Senedd (gweler adran 13(3) o Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010 ("Mesur 2010")). Mae'r cyfyngiad hwnnw hefyd yn gymwys i benderfyniadau ar dalu cyflogau i'r Prif Weinidog, Gweinidogion Cymru, y Cwnsler Cyffredinol a Dirprwy Weinidogion Cymru. Yn unol ag adran 13(4) o Fesur 2010, mae'r Bwrdd o'r farn bod amgylchiadau eithriadol sy'n golygu ei bod yn gyfiawn ac yn rhesymol i'r cyfyngiadau a osodir gan adran 13(3) o Fesur 2010 beidio â bod yn gymwys.

Mae'r Bwrdd o'r farn bod angen Penderfyniad eithriadol am y rhesymau a ganlyn:

- Cyflwynwyd y cap o 3% yn rhannol i liniaru'r 'amrywiadau diweddar', bryd hynny, ym mynegai ASHE rhwng 2018 a 2020 (yn amrywio o 0.4%-4.4%), ac er mwyn sicrhau bod mynegeio'n parhau i fod yn berthnasol i gyd-destun economaidd ehangach Cymru yn y cyfnod yn syth ar ôl COVID.
- Mae'r Bwrdd wedi ystyried yr amgylchiadau economaidd presennol, ac yn benodol: (a) y ffaith bod y DU wedi wynebu cyfnod o chwyddiant eithriadol o gyflym sy'n parhau i gael effaith sylweddol ar gostau byw; a (b) y cynnydd a welwyd mewn cyflogau ar draws gweithlu ehangach Cymru yn ystod y Chweched Senedd a dyfarniadau cyflog cyfartalog yn y sector cyhoeddus yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf.

¹Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion

BWRDD TALIADAU REMUNERATION BOARD

- Mae ffigurau diweddaraf ASHE Cymru, a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ym mis Tachwedd, yn cadarnhau y bu cyfnod o dair blynedd o dwf annisgwyl, cyson a pharhaus yng nghyflogau cyfartalog Cymru a llai o amrywiad nag a brofwyd yn y cyfnod yn arwain at bandemig COVID-19, gyda chynnydd yn yr ASHE o 7.3%, 5.7% a 6% yn ystod 2021-22, 2022-23 a 2023-24, yn y drefn honno.
- Byddai cadw'r cap ar gyfer mynegeio cyflogau Aelodau ar 3% yng nghyd-destun y sefyllfa economaidd bresennol a adlewyrchir yn y twf parhaus yn yr ASHE yn groes i egwyddor graidd y Bwrdd o bennu penderfyniadau yng nghyd-destun enillion Cymru ac amgylchiadau ariannol ehangach Cymru.
- Ar ben hynny, byddai cadw'r cap yn groes i amcan statudol y Bwrdd o roi i Aelodau 'lefel o dâl sy'n adlewyrchu'n deg gymhlethdod a phwysigrwydd eu gwaith fel Aelodau'. Byddai cadw'r cap yn arwain at sefyllfa lle na fyddai eu cyflogau'n adlewyrchu'n deg y rôl o ystyried effaith twf mewn enillion yn yr economi ehangach ac effaith pwysau chwyddiant.

Un o egwyddorion y Bwrdd yw bod rhaid i benderfyniadau fod yn briodol yng nghyd-destun enillion yng Nghymru ac amgylchiadau ariannol ehangach Cymru. Cred y Bwrdd ei bod yn bwysig i gyflogau Aelodau ddilyn trywydd y farchnad swyddi ehangach yng Nghymru, ac mae wedi dewis defnyddio mynegai ASHE Cymru gan ei fod yn adlewyrchu newidiadau mewn enillion ledled Cymru.

Mae'r Bwrdd o'r farn bod yr ystyriaethau hyn yn esgor ar amgylchiadau eithriadol sy'n ei gwneud yn gyfiawn ac yn rhesymol newid y Penderfyniad mewn perthynas â chyflogau'r Aelodau a deiliaid swyddi ychwanegol drwy ddileu paragraff 3.2.2 o'r Penderfyniad.

BWRDD **TALIADAU**
REMUNERATION BOARD

Atodiad: Cyflogau ar gyfer 2025/26

Rôl	Cyflog	
Aelod	£76,380	
Deiliad Swyddi Ychwanegol	Cyflog ychwanegol	Cyfanswm cyflog
Y Prif Weinidog	£90,701	£167,081
Gweinidog Cymru	£42,963	£119,343
Y Cwnsler Cyffredinol	£42,963	£119,343
Dirprwy Weinidog	£25,063	£101,443
Y Llywydd	£48,930	£125,310
Y Dirprwy Lywydd	£25,063	£101,443
Comisiynydd y Senedd	£15,514	£91,894
Cadeirydd Pwyllgor (uwch)	£15,514	£91,894
Cadeirydd Pwyllgor (is)	£10,336	£86,716
Aelod o'r Pwyllgor Busnes	£10,336	£86,716
Arweinydd Grŵp Gwleidyddol nad yw yn y Llywodraeth	£15,514 + £1,194 yr Aelod, hyd at uchafswm o £42,963	Hyd at uchafswm o £119,343